| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **1 MAWRTH 2021** |
| **PWNC:** | **STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2021/22 i 2023/24** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES / CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>**2601 / 2133**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk/ clkfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhellion a rhesymau**

O dan God Materion Ariannol diwygiedig CIPFA, Medi 2017, mae'n ofynnol bellach fod pob awdurdod yn cynhyrchu strategaeth gyfalaf. Yn y strategaeth gyfalaf hon, rhaid amlinellu'r cyd-destun tymor hir i benderfyniadau am wariant cyfalaf a buddsoddi. Pwrpas y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ar gyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion gwasanaethau ac yn rhoi ystyriaeth briodol i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

**Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:-

- Gadarnhau ac argymell bod y Cyngor llawn yn cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2021/22 – 2023/24 fel y mae wedi'i dangos yn Atodiadau 1 a 2 isod.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

D/B

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r cyfrifoldeb am benderfynu ar strategaeth cyllideb y Cyngor yn un i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - Ydi'r penderfyniad hwn yn unol â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - Ydi'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

D/B

| | **DD - Pwy wnaethoch chi ymgynghori â nhw?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS)** (mandadol) | Mae'r UDA wedi ystyried y strategaeth gyfalaf gyffredinol fel rhan o'r broses i gytuno ar y gyllideb cyfalaf am 2021/22 |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | D/B – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA, bydd unrhyw sylwadau a wnaed wedi cael eu hystyried fel rhan o'r sylwadau cyffredinol wnaed gan yr UDA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim yn berthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Mae'r asesiad o waith atgyweirio a chynnal a chadw yn y dyfodol a baratowyd gan y tîm eiddo wedi ei ystyried wrth lunio'r strategaeth gyfalaf |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Mae'r asesiad o fuddsoddiad TG yn y dyfodol a baratowyd gan Bennaeth TG wedi ei gymryd i ystyriaeth wrth lunio'r strategaeth gyfalaf |
| 7 | **Sgriwtini** | Cafodd y Rhaglen Gyfalaf am 2021/22 ei ystyried gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 12 Chwefror 2021 a hefyd gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 16 Chwefror 2021. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Dim yn berthnasol. |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Ymgynghorwyd ar y Rhaglen Cyfalaf am 2021/22 fel rhan o'r broses gyffredinol o ymgynghori ar y gyllideb. |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Ym mha ffyrdd y mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor yn Ynys Môn?** | Mae'r strategaeth gyfalaf yn cyfeirio gwariant at flaenoriaethau allweddol y Cyngor (gweler Atodiad 1, Adran 1.2 isod.) Mae hyn yn sicrhau bod asedau'r Cyngor yn helpu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau sy'n cwrdd â blaenoriaethau'r Cyngor, yn cynnwys anghenion hirdymor Ynys Môn. Bydd prosiectau cyfalaf yn cwrdd â gofynion cynllunio er mwyn sicrhau bod adeiladau a strwythurau'n cydweddu ag amgylchedd adeiledig a naturiol Ynys Môn. Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid i gynnal asedau'r Cyngor ac mae'n rhan o'r strategaeth i gyflawni'r amcanion a nodwyd yng nghynllun corfforaethol y Cyngor. |
| 2 | **A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau i'r Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, ym mha ffordd:-** | Drwy barhau i gynnal asedau'r Cyngor, gellir atal costau uwch yn y dyfodol. |
| 3 | **A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn. Os ydym, nodwch bwy:** | Mae prosiectau cyfalaf mewn perthynas ag Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai yn gyson â blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan mewn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Eglurwch ym mha ffordd:-** | Gofynnir am farn cydranddeiliaid y Cyngor, yn cynnwys dinasyddion Ynys Môn, am y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn yn rhan o'r ymgynghoriad blynyddol ar y gyllideb. Ceisir ymgynghori'n eang hefyd ar gynlluniau sylweddol fel rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. |
| 5 | **Eglurwch yr effaith a gaiff y penderfyniad hwn ar yr agenda Cydraddoldebau a'r iaith Gymraeg.** | Mae'r strategaeth gyfalaf a phrosiectau cyfalaf yn gymorth uniongyrchol i gynyddu cydraddoldeb drwy waith sy'n gwella hygyrchedd i unigolion sydd ag anableddau. Bob blwyddyn, bydd y Cyngor yn darparu cyllid ar gyfer addasiadau i alluogi unigolion i aros yn eu cartref. Darperir cyllid cyfalaf bob blwyddyn i wella hygyrchedd mewn ysgolion. |
| 6 | **Cytundebau ar Ddeilliannau** | |
| 7 | **Eraill** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2021/22 i 2023/24
Atodiad 2 – Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig Ddrafft 2021/22

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2021/22, y Pwyllgor Gwaith, 1 Mawrth 2021
Cynllun Ariannol Tymor Canol 2021/22 i 2023/24, y Pwyllgor Gwaith, 28 Medi 2020
Adroddiad ar y Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2021/22, y Pwyllgor Gwaith, 18 Ionawr 2021
Adroddiad ar y Rhaglen Gyfalaf 2021/22, y Pwyllgor Gwaith, 1 Mawrth 2021
Cyllideb Refeniw 2021/22, y Pwyllgor Gwaith, 1 Mawrth 2021

**ATODIAD 1**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Strategaeth Gyfalaf 2021/22 i 2023/24










# Cyngor Sir Ynys Môn
# Strategaeth Gyfalaf 2021/22 i 2023/24

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Mae Rhan 1, Adran 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn bod yr Awdurdod yn penderfynu ac yn parhau i adolygu faint y gall fforddio ei fenthyca. Mae'r Ddeddf wedi'i hategu gan y Fframwaith Darbodus ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf awdurdodau lleol a Chod Materion Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod). Cafodd Cod Materion Ariannol CIPFA ei ddiwygio yn 2017/18. O dan y Cod diwygiedig, roedd gofyniad newydd bod pob awdurdod yn cynhyrchu strategaeth gyfalaf, sy'n amlinellu'r cyd-destun tymor hir i benderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddi. Mae gofyn i awdurdodau roi ystyriaeth briodol i risgiau ac enillion ac effaith hynny ar gyflawni deilliannau blaenoriaethol. Roedd CIPFA hefyd wedi diwygio'r Cod Ymarfer ar Reoli Trysorlys yr un pryd. Mae'r Strategaeth Gyfalaf hon ar gyfer 2021/22 yn cwrdd â gofynion Cod Materion Ariannol CIPFA 2017, yn cyd-fynd â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor 2021/22 ac mae'n cymryd i ystyriaeth God Rheoli Trysorlys CIPFA 2017.

**1.2** Diben y strategaeth hon yw pennu'r amcanion, yr egwyddorion a'r fframwaith llywodraethu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gwneud penderfyniadau ar wariant a buddsoddiadau cyfalaf yn unol ag amcanion gwasanaethau. Mae Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017/22 yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2022. Un o egwyddorion sylfaenol y Strategaeth yw ei bod yn cyfeirio gwariant cyfalaf at brosiectau sy'n helpu'r Cyngor i gwrdd â'r amcanion allweddol a ganlyn yng Nghynllun y Cyngor neu'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol:-

**Amcan 1:** Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir.

**Amcan 2:** Cefnogi oedolion bregus a'u teuluoedd i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.

**Amcan 3:** Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

**1.3** Mae'r strategaeth hon hefyd yn nodi'r gwariant cyfalaf dichonol yn y dyfodol, yn asesu'r effaith ar yr elfen cyllido cyfalaf yn y cyfrif refeniw ac yn pennu'r cyllid sydd ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd am y cyfnod 2021/22 i 2023/24. Mae hefyd yn gosod egwyddorion tymor hir i ategu cynllunio cyfalaf ymhell i'r dyfodol. Mae'r dull o lywodraethu'r strategaeth hon yn dilyn yr un broses â'r Prosesau Gosod Refeniw a'r Gyllideb a chyflwynir y strategaeth i'r Pwyllgor Gwaith, a fydd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn ar gyfer ei chymeradwyo.

## 2. Amcanion ac Egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf

**2.1** Mae nifer o amcanion allweddol yn y Strategaeth Gyfalaf i sicrhau bod gwariant cyfalaf yn cael ei dargedu i gwrdd â blaenoriaethau allweddol y Cyngor, gan roi ystyriaeth hefyd i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

**2.1.1** Mae Cynllun y Cyngor 2017/22 yn pennu blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor hyd at 31 Mawrth 2022 a dylid cyfeirio adnoddau at gyflawni'r amcanion hyn. Bydd y strategaeth gyfalaf hon yn helpu i sicrhau y bydd y rhaglen gyfalaf yn cyfeirio gwariant cyfalaf at brosiectau sy'n cyfrannu fwyaf at gyflawni'r amcanion allweddol yng Nghynllun y Cyngor 2017/22.

**2.1.2** Bob blwyddyn, bydd cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu i sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol er mwyn eu diogelu ar gyfer y dyfodol.

**2.1.3** Bydd y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf o gyllid cyfalaf allanol pan fo hynny'n bosibl ac yn fforddiadwy.

**2.1.4** Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei ddyrannu ar sail blaenoriaeth i asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

**2.1.5** Mae'r Cyngor yn parhau â'i ymrwymiad i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a bydd yn parhau i wneud defnydd llawn o gyllid allanol Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**2.2** Bydd yr egwyddorion a ganlyn yn helpu i gyflawni'r amcanion allweddol uchod:-

**2.2.1** Bod rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael ei hystyried ar wahân i weddill rhaglen gyfalaf gyffredinol y Cyngor. Mae rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ymrwymiad sylweddol tymor hir i adeiladu a/neu adnewyddu ysgolion fel bod ysgolion Môn yn addas i bara i'r dyfodol a chwrdd â gofynion yr 21ain Ganrif. Mae rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ategu'r agenda ar foderneiddio ysgolion ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir. Mae'r egwyddor hon yn unol hefyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy sicrhau bod lleoliadau addysgol yn addas yn y tymor hir. Bydd elfen o'r gwariant ar raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael ei chyllido o'r derbyniadau cyfalaf a geir o werthu ysgolion gwag, a bydd gweddill y balans yn cael ei gyllido o fenthyca digefnogaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod cyllid ar gael o'r grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth i gyllido buddsoddiadau mewn asedau presennol a newydd sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion yng Nghynllun y Cyngor 2017/22, ac yn sicrhau bod asedau presennol y Cyngor yn cael eu cynnal a'u cadw.

**2.2.2** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i gyllido gwelliannau mawr yng nghyfarpar TG, cerbydau ac adeiladau presennol y Cyngor neu i'w hamnewid.

**2.2.3** Bod swm yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf i gwrdd â'r gofyniad statudol i'r Cyngor gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae hyn yn helpu i gyflawni cyfrifoldebau statudol ac yn cefnogi amcan allweddol y Cyngor i gefnogi oedolion bregus a'u teuluoedd i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.

**2.2.4** Bod lefel o waith gwella ffyrdd yn cael ei chyllido o'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn. Bydd y swm a ddyrennir yn ddibynnol ar y cyllid sydd ei angen i sicrhau unrhyw warantau ynghylch isafswm gwerth contractau, ar lefel y cyllid sydd ar gael, ac ar asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod. Bydd gwelliannau i'r ffyrdd yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Hefyd mae hyn yn ategu holl flaenoriaethau allweddol y Cyngor oherwydd natur wledig Ynys Môn a phwysigrwydd y rhwydwaith priffyrdd i sawl agwedd o waith y Cyngor.

**2.2.5** Bydd prosiectau lle mae angen lefel o gyllid cyfatebol er mwyn gallu cael cyllid grant, yn cael eu hasesu fesul un gan y Swyddog Adran 151, a gwneir argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith. Bydd y penderfyniad ynghylch neilltuo cyllid neu beidio yn dibynnu ar y prosiect, sut mae'n ffitio i flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau parhaus o ran refeniw, a'r gymhareb rhwng cyllid y Cyngor a'r cyllid grant.

**2.2.6** Yn achos prosiectau sydd i'w cyllido drwy fenthyca digefnogaeth, ac eithrio prosiectau rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ni fyddant yn cael eu cyflawni oni bai fod y gostyngiad mewn costau refeniw neu'r cynnydd mewn incwm a grëir yn ddigon i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol a ysgwyddir. Mae'n bwysig bod unrhyw asedau a gyllidir drwy fenthyca digefnogaeth yn rhai hanfodol i gyflawni blaenoriaethau allweddol y Cyngor.

## 3. Sut mae'r Strategaeth yn cydweddu â dogfennau eraill

### 3.1 Cynllun y Cyngor 2017/22

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni yn ystod y cyfnod 2017/22. Mae'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor wedi'u crynhoi uchod yn 1.2. Un o amcanion allweddol y Strategaeth Gyfalaf hon yw sicrhau bod y cyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor yn cael ei wario ar brosiectau sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, gan gynnwys cynnal a chadw, amnewid a/neu uwchraddio asedau presennol. Mae nifer o ddogfennau strategol allweddol eraill yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor. Mae'r rhain yn pennu sut bydd yr Awdurdod yn gweithio ar agweddau penodol sy'n effeithio ar y Cyngor.

### 3.2 Y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT)

Mae cysylltiad agos iawn rhwng y Strategaeth Gyfalaf hon a'r DSRhT a chaiff y ddwy ddogfen eu hadolygu'n flynyddol. Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn pennu sut bydd y Cyngor yn gwario ei gyllid cyfalaf ac mae'r DSRhT yn dangos sut y caiff hyn ei gyllido a'i effaith ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor. Mae benthyca yn rhan allweddol o'r strategaeth gyllido. Mae'r DSRhT hefyd yn rhoi manylion am y dull o fenthyca a sut y caiff ei reoli.

### 3.3 Y Cynllun Ariannol Tymor Canol

**3.3.1** Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) yw'r elfen hanfodol mewn cynllunio ariannol sy'n amcangyfrif gofynion refeniw y Cyngor dros y tair blynedd nesaf a sut y caiff hyn ei gydbwyso yn erbyn y cyllid sydd ar gael. Bydd gwariant cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw drwy'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn helpu i lunio'r Cynllun Ariannol Tymor Canol.

**3.3.2** Drwy fonitro cyllidebau ac adolygu'r CATC yn rheolaidd, ceir cymorth i fonitro'r effaith o'r perfformiad ariannol a materion ariannol ar y broses o gyflawni Cynllun y Cyngor. Gwaith sydd hefyd yn gysylltiedig â monitro ariannol yw monitro perfformiad a risgiau corfforaethol a risgiau gwasanaethau. Bydd rhai o'r risgiau hyn yn cael eu dynodi'n risgiau ariannol. Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor a'r Strategaeth Rheoli Risg yn pennu'r dull o reoli perfformiad a risg.

**3.3.3** Mae'r diagram isod yn crynhoi'r cysylltiad rhwng y strategaethau hyn ac yn dangos sut maent wedi'u seilio ar Gynllun y Cyngor.

# Cynllun y Cyngor 2017/22

**Mae'r strategaethau a chynlluniau allweddol isod yn bwysig ac wedi'u cysylltu â'i gilydd i helpu i bennu'r lefel fforddiadwy o adnoddau refeniw a chyfalaf sydd eu hangen i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor 2017/22. Mae'r rhain yn darparu fframwaith hefyd ar gyfer rheolaeth ariannol gadarn ar adnoddau'r Cyngor.**

## Y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC)

Caiff hwn ei adolygu'n rheolaidd i helpu i bennu'r gofyniad tebygol am adnoddau am y tair blynedd nesaf a sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r gofyn am adnoddau. Mae hyn yn cynnwys effaith materion refeniw a chyfalaf ar Gronfa'r Cyngor.

## Strategaeth Gyfalaf

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi'r blaenoriaethau allweddol o ran sut y dylid gwario gwariant cyfalaf i helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor 2017/22. Mae'n cydnabod bod gwariant cyfalaf yn arwain at gostau cyllido cyfalaf refeniw a bod rhaid cadw'r rhain yn fforddiadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn effeithio ar, ac yn cael ei heffeithio gan, y CATC, y DSRhT, y Gyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol.

## Strategaeth Rheoli Trysorlys (SRhT)

Mae hon yn gosod y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw a'r Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys am y flwyddyn. Mae'r rhain yn darparu'r fframwaith a'r rheolaethau sydd eu hangen i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr am gostau refeniw a chyfalaf, bod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a'i fod ar gael ac nad yw benthyca i gyllido gwariant cyfalaf yn mynd tu hwnt i lefel fforddiadwy.

Mae'r

## Gyllideb Refeniw Flynyddol

yn cael ei hategu gan y CATC, y Strategaeth Gyfalaf a'r SRhT Bob blwyddyn, caiff y costau cyllido cyfalaf refeniw eu hadolygu a'u diwygio wrth osod y gyllideb refeniw. Weithiau caiff cyfraniadau refeniw eu defnyddio i gyllido costau cyfalaf.

## Y Rhaglen Gyfalaf flynyddol

– Mae'r lefel o wariant a benthyca cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf ac unrhyw gostau refeniw parhaus fel gwaith cynnal a chadw.

# 4. Y Strategaeth Gorfforaethol a’r Broses Rhaglen Gyfalaf

## 4.1 Datblygu’r Strategaeth Gyfalaf

Caiff y Strategaeth Gyfalaf ei hadolygu bob blwyddyn gan gymryd i ystyriaeth Gynllun diweddaraf y Cyngor, y Cynllun Ariannol Tymor Canol a’r pwysau cyllidebol a ddisgwylir a’r Cynllun Rheoli Trysorlys. Mae hefyd yn ystyried rhaglen gyfalaf y flwyddyn flaenorol a lefel y cronfeydd wrth gefn a’r gyllideb refeniw. Mae’r strategaeth gyfalaf wedyn yn amlinellu’r amcanion a’r egwyddorion allweddol sydd wedyn yn helpu i ddatblygu’r Rhaglen Gyfalaf flynyddol bob blwyddyn. Mae gwariant cyfalaf yn wariant i gaffael neu greu asedau newydd neu i adnewyddu asedau presennol os yw oes yr ased yn hwy nag un flwyddyn ariannol. Gall yr asedau fod yn ddiriaethol (adeiladau, cerbydau ac isadeiledd) neu’n anniriaethol (trwyddedau meddalwedd). Bydd asedau anghyfredol sy’n werth £10k neu ragor yn cael eu hystyried yn wariant cyfalaf. £10k yw’r lefel de minimis a argymhellir gan y Cyngor i fod yn gymwys i fod yn rhan o’r rhaglen gyfalaf. Bydd asedau anghyfredol sy’n werth llai na £10k yn cael eu codi i refeniw yn y rhan fwyaf o achosion. Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i hepgor y lefel de minimis os yw hynny’n briodol.

## 4.2 Datblygu’r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol

### 4.2.1 Y Broses Gwneud Cais a Sgorio


Wrth benderfynu pa brosiectau i’w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf, rhaid i’r cynigion fod nid yn unig yn fforddiadwy ond bod o gymorth hefyd i gyflawni’r blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun y Cyngor a chwrdd ag amcanion ac egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf. Bob blwyddyn, gofynnir i’r Gwasanaethau gyflwyno arfarniadau/ceisiadau cyfalaf newydd a diweddaru gwybodaeth am brosiectau sy’n parhau. Dylai’r arfarniadau ddangos sut mae pob prosiect yn bodloni’r meini prawf (a nodir isod) a byddant yn cynnwys yr holl oblygiadau refeniw parhaus a fydd yn codi o’r prosiect e.e. costau cynnal a chadw. Drwy sgorio arfarniadau/ceisiadau cyfalaf newydd, ceir elfen o wrthrychedd a sicrheir bod y prosiectau’n berthnasol i’r amcanion allweddol yng Nghynllun y Cyngor a’r Strategaeth hon. Y maen prawf pwysicaf yw pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at gyflawni Cynllun y Cyngor, felly mae mwy o bwysau wedi’i roi i’r maen prawf hwn. Y Gwasanaeth Cyfrifeg sy’n gwneud y sgorio cychwynnol. Wedyn bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ac yn cadarnhau’r sgoriau wrth ddrafftio’r rhaglen gyfalaf flynyddol.

| Meini Prawf | Sgôr |
|---|---|
| Pa mor agos y bydd y prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau’r Cynllun Corfforaethol | 20 |
| Mae’r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol | 10 |
| Bydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw | 10 |
| Bydd y prosiect yn helpu i liniaru Risg Gorfforaethol | 10 |
| **Cyfanswm sgôr uchaf** | **50** |

Mae’r strategaeth hefyd yn dyrannu cyllid at gynnal a chadw ac uwchraddio asedau presennol. Mae Rheolwyr Asedau yn penderfynu beth yw eu hangen am gyllid a chaiff hyn ei gydbwyso yn erbyn y cyllid sydd ar gael er mwyn dyrannu cyllid i bob prif grŵp asedau (adeiladau, cerbydau, TG, ffyrdd).

### 4.2.2 Amserlen

Mae'r broses o gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf yn dilyn yr amserlen ar gyfer gosod y gyllideb refeniw a datblygu'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'r amserlen ar gyfer datblygu'r Rhaglen Gyfalaf wedi'i chrynhoi isod:-




### 4.2.3 Awdurdodi

Mae'r cyfrifoldeb am gadarnhau'r Rhaglen Gyfalaf bob blwyddyn yn perthyn i'r Cyngor llawn, yn seiliedig ar yr argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mewn achosion eithriadol, bydd prosiectau cyfalaf newydd sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn cael eu hystyried gan Aelodau fel rhan o'r adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith. Mae prosiectau sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn debygol o gael eu cymeradwyo os ydynt yn cael eu cyllido'n sylweddol o grantiau neu gyfraniadau allanol, neu os ydynt yn ymateb i argyfwng e.e. tirlithriad, neu os bydd prosiect a gymeradwywyd yn y rhaglen yn cael ei ganslo a bod cyllid ar gael. Mae gofyn cael arfarniad cyfalaf ar gyfer prosiectau sy'n codi yn ystod y flwyddyn a bydd angen i'r prosiectau fod yn rhai sy'n helpu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion allweddol.

# 5. Y Cyd-destun Ariannol Cyfredol

## 5.1 Cyfyngiadau Refeniw

**5.1.1** Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) cychwynnol am 2021/22 i 2023/24 wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym Medi 2020. Roedd hwn yn cydnabod bod anhawster o ran cynllunio ariannol sy'n mynd yn bellach nag un flwyddyn oherwydd diffyg rhagolygon cyllidebol tair blynedd gan Lywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru. Roedd Brexit wedi achosi ansicrwydd sylweddol i'r economi, ac mae'n parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, mae effaith Brexit yn fach o'i chymharu ag effaith y Pandemig Coronafeirws ac mae'r economi'n fregus iawn ar ôl bron blwyddyn o gyfyngiadau Covid-19. Y benthyca gan y sector cyhoeddus am 2020/21 yw'r uchaf mewn un flwyddyn ers yr Ail Ryfel Byd. Yr amcangyfrif o'r ddyled wladol yw £2.13 triliwn, 99.4% o'r cynnyrch domestig gros GDP). O ganlyniad i'r camau a gymerodd Banc Lloegr i ostwng y gyfradd llog sylfaenol i 0.1% mewn ymateb i effaith economaidd y cyfyngiadau Covid-19, mae'r elw o fuddsoddiadau rheoli trysorlys wedi bod yn bitw. Ar y llaw arall, mae hyn wedi arwain at leihau'r costau llog sy'n daladwy ar fenthyciadau newydd ar gyfer gwariant cyfalaf. Er gwaethaf y cyllid sylweddol hwn i gynnal yr economi, y buddsoddi mewn cyfarpar diogelu personol a brechlynnau, mae nifer sylweddol o swyddi wedi'u colli a nifer mawr o fusnesau wedi cau. Byddai'r pwysau ariannol sydd ar y Llywodraeth a Llywodraeth Cymru yn gallu amharu ar y swm o gyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i Gynghorau yn y tymor canolig a hir. Felly, mae'n bwysig gosod strategaeth gyfalaf sy'n lleihau'r effaith ar y gyllideb refeniw.

**5.1.2** Mae'r CATC diwygiedig am 2021/22 i 2023/24, y cafwyd adroddiad amdano i'r Pwyllgor Gwaith y Ionawr 2021, yn dangos bod y setliad dros dro am 2021/22 yn well na'r disgwyl, yn enwedig o ystyried cost sylweddol y Pandemig i Lywodraeth Cymru. Ar ôl bron degawd o doriadau sylweddol mewn cyllid hyd 2019/20, mae'r setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru am 2021/22 yn gynnydd o 3.41% (3.84% yw'r cyfartaledd yng Nghymru), mae hyn yn debyg i setliad terfynol 2020/21. Unwaith eto, mae hyn i'w groesawu wedi'r blynyddoedd o doriadau sylweddol.

**5.1.3** Mae setliad dros dro Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys manylion am y cyllid cyfalaf a ddarperir i'r Cyngor ar gyfer 2021/22. O dan y setliad dros dro, bydd y Cyngor yn derbyn grant cyfalaf cyffredinol o £2.163m a benthyciadau â chefnogaeth o £2.158m sydd, gyda'i gilydd, yn dod i £4.321m. Er mwyn cadw'r costau cyllido cyfalaf yn fforddiadwy ar gyfer y gyllideb refeniw, gan ystyried yr ansicrwydd am lefelau cyllid refeniw yn y dyfodol yn benodol, un o egwyddorion allweddol y strategaeth hon yw na ddylai rhaglenni cyfalaf wario mwy na'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac eithrio benthyca digefnogaeth ar gyfer elfen cyllid y Cyngor i raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r cyllid ar gyfer hyn ar yr un lefel, neu'n is, yn y dyfodol. Bydd y cyllid hwn yn cael ei neilltuo'n gyntaf at ymestyn oes asedau'r Cyngor ac uwchraddio technoleg. Felly, ni fydd cyllid sylweddol ar gyfer prosiectau newydd. O dan y strategaeth hon, ni ddylid ystyried prosiectau newydd oni bai fod cyllid grant sylweddol ar gael i ymgymryd â phrosiect penodol, neu fod modd ei gyllido drwy fenthyca digefnogaeth os yw'r prosiect yn cwrdd â gofyniad y Cod Darbodus am gyllido'r costau cyllido cyfalaf o incwm ychwanegol neu drwy arbed gwariant/osgoi costau. Gellid cyllido prosiectau cyfalaf o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ond nid yw hyn yn gynaliadwy ac ni ddylid ystyried hyn oni bai fod lefel y gronfa wrth gefn gyffredinol yn uwch na'r lefel isaf sydd wedi'i hargymell. Gellir ystyried defnyddio arian dros ben mewn cronfeydd wrth gefn fel cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau a gyllidir drwy grant.

**5.1.4** Fel y nodwyd o'r blaen, bydd y cyllido ar gyfer y rhaglen gyfalaf yn cael effaith sylweddol ar y gyllideb refeniw, a rhoddir ystyriaeth i fforddiadwyedd wrth lunio'r Strategaeth Gyfalaf, ac mae'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys yn sicrhau bod y Cyngor yn lleihau i'r eithaf costau benthyca drwy wneud y defnydd gorau o falansau arian parod y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf.

## 5.2 Cyllido gwaith Moderneiddio Ysgolion

**5.2.1** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor ran o'r ffordd drwy raglen uchelgeisiol i foderneiddio ysgolion drwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gyda Band A yn dod i ben yn 2022 a Band B yn rhedeg tan 2026. Os bydd y rhaglen yn cyflawni pob un o'i hamcanion arfaethedig, bydd yn para mwy na 10 mlynedd a gall cyfanswm y costau cyfalaf fod yn sylweddol.

**5.2.2** Mae pedwar cam i'r rhaglen, sef Bandiau A, B, C a D. Mae dwy ysgol wedi'u cwblhau, sef Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan, ac mae trydedd ysgol, sef Ysgol Santes Dwynwen, bellach wedi'i chwblhau ac yn weithredol. Mae gwaith adnewyddu hefyd wedi'i gwblhau yn Ysgol Parc y Bont a Brynsiencyn. Y disgwyl yw y bydd y prosiectau olaf ym Mand A yn dechrau yn 2021, yn ddibynnol ar ganlyniad y gwaith ymgynghori a datblygu trwyadl.

**5.2.3** Mae'r Cyngor hefyd yn dechrau ymgynghoriadau ac yn cwmpasu opsiynau ar gyfer Band B yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Gallai rhan o'r gwaith hwn ddechrau yn 2020/21, fodd bynnag, rhagwelir y bydd modd dechrau'r gwaith mwyaf yn 2021/22. Cyfanswm yr amcangyfrif presennol o'r gost ar gyfer Band B yw £36m.

**5.2.4** Mae Band A rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael ei gyllido drwy 50% o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a 50% drwy fenthyca digefnogaeth. Mae rhan o'r cyllid o 50% gan Lywodraeth Cymru yn gyllid grant (67% o'r 50%) a rhan ohono'n fenthyca â chefnogaeth (33% o'r 50%). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod y gyfradd ymyrraeth ar gyfer Band B wedi cynyddu i 65%, ond ni wyddom ar hyn o bryd sut bydd hyn wedi'i ddyrannu rhwng cyllid grant a benthyca â chefnogaeth. Felly, cymerir y bydd 50% o gyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddarparu fel grant a 50% drwy fenthyca â chefnogaeth.

**5.2.5** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno model cyd-fuddsoddi ar gyfer Band B (MIM), lle mae cost cyfalaf y prosiect yn cael ei gyllido gan y sector preifat a bod y Cyngor wedyn yn talu ffi rhent i'r buddsoddwr am gyfnod penodedig (25 mlynedd yw'r disgwyl). Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad tuag at y ffi rhent bob blwyddyn (disgwylir y bydd yn 70% o leiaf).

**5.2.6** Cafodd Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor ar gyfer Band B ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf (ar ôl ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017). Mae Tabl 1 isod yn dangos amcangyfrif o'r gwariant a'r cyllid ar gyfer 2021/22.

**Tabl 1**
**Amcangyfrif o'r Cyllid ar gyfer Band A yn 2021/22 a Phrosiectau Arfaethedig Band B**

| Band | Rhanbarth | Benthyca Digefnogaeth (net o'r derbyniad cyfalaf) £'m | Benthyca â chefnogaeth £'m | Grant LlC £'m | Cyfanswm £'m |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | **CYFANSWM BAND A** | **0** | **2.5** | **2.5** | **5.0** |
| | **CYFANSWM BAND B** | **0.5** | **0.4** | **0.7** | **1.6** |

**5.2.7** Tybir y bydd yr holl fenthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth yn cael ei wneud drwy gymryd benthyciadau newydd gan PWLB dros gyfnod sy'n cyfateb i oes ddisgwyliedig yr ased (50 mlynedd).

**5.2.8** Bydd unrhyw fenthyca ychwanegol (â chefnogaeth a digefnogaeth) yn cynyddu Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor a bydd hyn, yn ei dro, yn cynyddu'r tâl Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) blynyddol a godir ar y cyfrif refeniw, gan arwain at daliadau llog blynyddol ychwanegol.

**5.2.9** Byddai'r benthyca digefnogaeth ychwanegol ar gyfer Band B (yn seiliedig ar gyfnod ad-dalu o 50 mlynedd a llog blynyddol o 3.2%) yn arwain at daliadau cyllido cyfalaf ychwanegol o £0.658m y flwyddyn i'r gyllideb refeniw (£0.405m o log yn daladwy a DRI o £0.253 miliwn) ar ôl cwblhau'r Rhaglen gyfan. Yn ymarferol, byddai'r costau hyn yn dod i mewn yn raddol wrth i bob prosiect gychwyn ac ar ôl cymryd y benthyciadau i wneud y gwaith. Byddai'r tâl DRI yn cael ei godi wedi i'r ysgolion ddod yn weithredol.

**5.2.10** Dylid nodi y bydd cyflawni'r prosiectau Band B yn dileu'r angen am gyflawni gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni mewn gwahanol ysgolion. Byddai costau refeniw a chyfalaf ychwanegol pellach yn cael eu hysgwyddo wrth gyflawni gwaith Band C a Band D. Byddai angen i unrhyw symiau a neilltuir i'r camau hyn o'r rhaglen fod yn ymarferol ac yn fforddiadwy.

# 6. Cyllid

**6.1** **Ffynonellau Cyllid** – mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei chyllido o'r ffynonellau a ganlyn:-

- **Grant Cyfalaf Cyffredinol** – Mae hwn yn swm o arian sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r setliad blynyddol. Mae'r Cyngor yn rhydd i ddefnyddio'r grant cyfalaf ar unrhyw brosiect cyfalaf y mae'n dymuno. Rhaid i'r grant hwn gael ei wario erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.
- **Benthyca â Chefnogaeth** – Bydd y Cyngor yn benthyca gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) i gyllido'r gwariant. Mae'r costau refeniw sy'n codi o'r benthyciadau (Costau Llog a'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw) yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru drwy'r setliad refeniw blynyddol, sy'n egluro'r term "Benthyca â Chefnogaeth".
- **Benthyca Digefnogaeth** – Yma eto, mae'r Cyngor yn benthyca'r arian gan PWLB neu o ffynhonnell arall ond mae gofyn iddo gyllido'r costau refeniw o'i adnoddau ei hun. Ar y cyfan, mae prosiectau a gyllidir drwy fenthyca digefnogaeth yn brosiectau sy'n sicrhau arbedion refeniw, a'r arbedion hyn sy'n cael eu defnyddio i gwrdd â'r costau refeniw ychwanegol sy'n codi o'r benthyciad.
- **Grantiau Cyfalaf Penodol** – Bydd y Cyngor yn derbyn grantiau cyfalaf sy'n cyllido cost prosiect yn llawn neu'n rhannol. Fel arfer bydd cyfyngiadau ar grantiau cyfalaf o ran y gwariant y gellir ei gyllido ac erbyn pa bryd y mae'n rhaid ysgwyddo'r gwariant.
- **Cyfraniad Refeniw** – Gall gwasanaethau gyfrannu o'u cyllidebau refeniw i gyllido prosiectau. Gan amlaf, bydd y cyfraniadau hyn ar ffurf cyllid cyfatebol ar gyfer prosiect sy'n cael ei gyllido'n bennaf o grant cyfalaf penodol.
- **Derbyniadau Cyfalaf** – Gellir defnyddio'r cyllid a gynhyrchir drwy werthu asedau i gyfrannu at gyllido'r rhaglen gyfalaf. Fel arfer, bydd derbyniadau o'r fath yn codi o werthu asedau dros ben (tir neu adeiladau gan amlaf).
- **Cronfeydd Wrth Gefn** – Gellir defnyddio cyllid sy'n cael ei ddal mewn cronfa wrth gefn, e.e. derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio, i gefnogi'r rhaglen gyfalaf.

**6.2** Fel yr eglurwyd yn y paragraff uchod, caiff y rhaglen gyfalaf ei chyllido o sawl ffynhonnell wahanol sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor mewn gwahanol ffyrdd:-

**6.2.1** Nid yw cyllid a dderbynnir ar ffurf grantiau (cyffredinol neu benodol) yn cael unrhyw effaith ar sefyllfa ariannol hirdymor y Cyngor gan fod pob grant a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gwariant cyfalaf. Gellir cael gwahaniaethau o ran amseriad sy'n golygu na fydd grantiau'n cael eu defnyddio mewn un flwyddyn ac y byddant yn cael eu cario o un flwyddyn i'r nesaf drwy fantolen y Cyngor.

**6.2.2** Mae derbyniadau cyfalaf yn ganlyniad i drosi asedau dros ben i arian parod sydd, yn ei dro, yn arwain at greu ased newydd. Yma eto, ychydig iawn o effaith hirdymor a gaiff y math hwn o gyllido ar sefyllfa ariannol y Cyngor ond fe ddaw adeg pan fydd yr holl asedau dros ben wedi'u gwerthu ac y bydd lefel y cyllid sydd ar gael drwy dderbyniadau cyfalaf yn gostwng.

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn defnyddio'r cyllid dros ben ar y cyfrif CRT (yr hyn sy'n weddill o incwm rhent ar ôl gwariant) i gyllido gwariant cyfalaf. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynllun busnes y CRT ac nid yw'n effeithio ar Gronfa'r Cyngor.

**6.2.3** Bydd y defnydd o gyllid refeniw yn lleihau gwerth yr arian sy'n cael ei ddal yn y cronfeydd wrth gefn neu'r swm sy'n cael ei drosglwyddo i falansau cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, h.y. mae'n trosi arian parod dros ben i wneud ased newydd.

**6.2.4** Mae benthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth yn effeithio ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) y Cyngor ac mae goblygiadau o hynny, yn ei dro, i'r gyllideb Refeniw gan y bydd y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) a'r taliadau llog blynyddol yn fwy.

**6.2.5** Er bod y Cyfrif Refeniw Tai yn gweithredu ar wahân i Gronfa'r Cyngor, nid yw'r Cyngor yn benthyca ar wahân ar gyfer gwariant o Gronfa'r Cyngor a'r CRT. Mae'r holl fenthyca yn cael ei gyfuno a chaiff y costau eu dyrannu i'r ddwy gronfa ar sail lefel y gwariant a gyllidwyd o fenthyciadau ar gyfer y ddwy gronfa. Mae'r dull dyrannu yn cael ei ddal dan sylw drwy'r amser i sicrhau mai hwnnw yw'r dull mwyaf teg.

### 6.3 Cyfyngiadau Cyllido dros y Tair Blynedd nesaf

**6.3.1** Mae'r cyd-destun ariannol ansicr y mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ynddo yn cael ei drafod yn adran 5, ac mae'n dangos bod cyfyngiadau ar y ffordd y mae'r Cyngor yn cyllido gwariant cyfalaf. Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw lleihau gwariant refeniw er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys, tra'n lleihau'r gostyngiad yng nghyllidebau gwasanaethau i'r graddau mwyaf posibl. Mae'n rhesymol i'r Cyngor leihau'r cynnydd sydd ei angen yn y gyllideb cyllido cyfalaf. Bydd angen darparu cyllid cyfalaf ychwanegol ond dylid cadw hyn ar lefel sy'n cael ei chyllido drwy'r setliad (grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth) fel bod y cynnydd yn y costau cyllido cyfalaf yn cael ei gyllido drwy dderbyniadau cyfalaf ac unrhyw grantiau penodol sydd ar gael.

**6.3.2** Ni ddylid ystyried benthyca digefnogaeth (y tu allan i raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif) oni bai fod modd gostwng cyllideb y gwasanaeth perthnasol o swm sy'n fwy na'r DRI a'r costau llog.

**6.3.3** Polisi Llywodraeth Cymru dros nifer o flynyddoedd yw cynnal lefel y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth ar yr un lefel â'r blynyddoedd cynt neu'n agos iddi, a chyfeirio cyllid cyfalaf ychwanegol at ysgolion, gwella ffyrdd ac ati. Er hynny, cafwyd cynnydd yn y cyllid grant cyffredinol ar gyfer 2019/20 a 2020/21.

**6.3.4** Fel landlord stoc dai, bydd y Cyngor hefyd yn derbyn lwfans atgyweiriadau mawr yn dilyn cyflwyno a chael cymeradwyaeth i'r cynllun busnes 30 mlynedd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Mae gwariant cyfalaf ar y CRT yn cael ei ategu drwy ddefnyddio arian wrth gefn y CRT a thrwy ddefnyddio pwerau benthyca sydd ar gael i'r CRT.

**6.3.5** Bydd grantiau penodol sydd wedi cael eu cymeradwyo, sy'n debygol o gael eu cymeradwyo neu sy'n deillio o bidiau llwyddiannus, hefyd ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i'r Cyngor gyfrannu swm o'i gyllid cyfalaf ei hun fel cyllid cyfatebol er mwyn sicrhau'r cyllid grant. Mae'r grantiau a'r cyfraniadau a nodwyd fel ffynonellau cyllid ar hyn o bryd ar gyfer 2020/21 yn dod i £8m, gan gynnwys y grant cyfalaf cyffredinol. Mae'r Cyngor wedi derbyn cyllid sylweddol gan yr UE mewn blynyddoedd blaenorol. Ni fydd y ffynhonnell cyllid hon ar gael o 2021/22 ymlaen, ond bydd y Cyngor yn ceisio canfod ffynonellau cyllid grant eraill lle bo hynny'n bosibl.

**6.3.6** Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n ofynnol bod unrhyw fenthyca digefnogaeth yn cynhyrchu incwm ychwanegol / arbedion gwariant refeniw er mwyn cyllido'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol (DRI a thaliadau llog) a godir ar y cyfrif refeniw. Bydd unrhyw gynlluniau arfaethedig a gaiff eu cyllido drwy fenthyca digefnogaeth yn cael eu hasesu fesul cynllun unigol.

**6.3.7** Yn ogystal â'r ffynonellau cyllid a nodir uchod, mae'r Cyngor yn dal cronfa cyllido cyfalaf wrth gefn, sy'n cynnwys cyfraniadau refeniw sydd heb eu defnyddio eto. Y balans cyfredol yw £0.800m. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r swm hwn yn cael ei defnyddio tuag at gyllido rhaglen 2020/21.

**6.3.8** Mae derbyniadau cyfalaf sydd heb eu dyrannu yn cael eu dal mewn cronfa wrth gefn. Balans y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2020 oedd £1.3m. Bydd y derbyniadau hyn yn cael eu defnyddio fel ffynhonnell gyllido ar gyfer rhaglen 2020/21, neu byddant yn helpu i gyllido gwariant sydd wedi llithro yn 2021/22 ac wedyn fel y bo'r angen.

**6.3.9** I grynhoi, dylai'r cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd yn 2021/22 fod wedi'i gyfyngu i lefel y grant cyfalaf cyffredinol (£2.163 miliwn), benthyca â chefnogaeth (£2.158 miliwn) ac unrhyw dderbyniadau cyfalaf heb eu dyrannu a gynhyrchir yn y flwyddyn. Byddai cyfanswm y gyllideb sydd ar gael oddeutu £4.3m, heb gynnwys grantiau, cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif a chyllid y CRT. Bydd yr egwyddor hon yn cael ei chymhwyso yn y tymor canol a'r tymor hir i sicrhau bod y rhaglen gyfalaf yn fforddiadwy, yn enwedig yng nghyd-destun y toriadau parhaus mewn cyllid.

## 6.4 Amcangyfrif o'r Proffil Cyllido 2021/22 i 2023/24

**6.4.1** Mae'r cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru (ac eithrio cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif) ar gyfer y cyfnod 2021/22 i 2023/24 wedi'i ddangos yn Nhabl 2 isod. Dylid nodi y bydd y Cyngor hefyd yn derbyn nifer o grantiau cyfalaf bach.

**Tabl 2**
**Amcangyfrif o'r Cyllid Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru 2021/22– 2023/24**

| | 2021/22 £'m | 2022/23 £'m | 2023/24 £'m |
|---|---|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 2.163 | 1.818 | 1.818 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2.158 | 2.158 | 2.158 |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 2.660 | 2.660 | 2.660 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru** | **6.981** | **6.636** | **6.636** |

**6.4.2** Prin yw'r cyfle i gyllido prosiectau newydd yn 2021/22 drwy'r cyllid a dderbynnir yn rhan o setliad ariannol Llywodraeth Cymru. Roedd y cynnydd yn y Grant Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19 i 2021/22 wedi helpu'r Cyngor i gyllido prosiectau cyfalaf ychwanegol ar sail blaenoriaeth. Rhagwelir y bydd y grant cyffredinol yn dychwelyd i lefelau blaenorol o 2022/23. Mae benthyca digefnogaeth yn bosibl ond, oni bai fod y prosiectau yn creu arbedion refeniw, bydd y tâl DRI a'r costau llog ychwanegol yn cynyddu'r gyllideb refeniw a bydd yn rhaid cyllido hynny drwy gynyddu'r Dreth Gyngor neu drwy wneud arbedion refeniw yn rhywle arall. Felly, gall y Cyngor sicrhau bod y costau cyllido cyfalaf yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy drwy gyfyngu'r gwariant cyfalaf a gyllidir drwy fenthyca digefnogaeth i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a phrosiectau cyfalaf sy'n arwain at arbedion refeniw sy'n fwy na'r costau DRI a llog a fydd yn daladwy yn sgil y cyllido cyfalaf. Mae'r Adroddiad ar Raglen Gyfalaf Ddrafft 2021/22, a grynhoir isod, yn cynnig rhaglen fforddiadwy gyda defnydd cyfyngedig o fenthyca digefnogaeth.

## 7. Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2021/22

**7.1** Bydd y rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2021/22 yn cael ei chyflwyno gyda'r strategaeth gyfalaf hon i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2021 ac i'r Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig, yn cynnwys y ffynonellau cyllid. Darparwyd manylion ychwanegol yn Atodiad 2.

**Crynodeb o Raglen Gyfalaf ddrafft 2021/22**

| | Cyf. | £'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2020/21 a ddygwyd ymlaen | Para 3.1 | 4,000 |
| Adnewyddu / Amnewid Asedau | Para 3.1 | 4,137 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Prosiectau â Blaenoriaeth) | Para 3.3 | 780 |
| Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Yn amodol ar y cyllid sydd ar gael) | Para 3.3 | 325 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | Gweler adroddiad 18/01/21 | 6,600 |
| Cyfrif Refeniw Tai | " | 20,313 |
| **Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf sydd wedi'i hargymell ar gyfer 2021/22** | | **36,155** |
| **Wedi'i chyllido drwy:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,163 |
| Benthyca Cyffredinol â Chefnogaeth | | 2,158 |
| Balansau Cyffredinol | | 596 |
| Balansau Cyffredinol (os oes digon o gyllid ar gael) | | 325 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Benthyca â Chefnogaeth | | 2,897 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Benthyca Digefnogaeth | | 498 |
| Arian Wrth Gefn y CRT a Gwarged yn y Flwyddyn | | 15,639 |
| CRT - Benthyca Digefnogaeth | | 2,000 |
| Grantiau Allanol | | 5,909 |
| Cynlluniau 2020/21 a ddygwyd ymlaen (Grantiau Allanol) | | 3,970 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2021/22** | | **36,155** |

### 7.2 Cynlluniau Gwariant Cyfalaf yn y Tymor Hwy

**7.2.1** Mae'r rhaglen gyfalaf ddrafft isod yn darparu rhagolygon sy'n gyson â'r Cynllun Ariannol Tymor Canol a Chynllun y Cyngor 2017/22 a'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys. Mae'r strategaeth gyfalaf hon hefyd yn rhoi gwybod am y bwriadau tymor hir mewn perthynas â Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif sydd wedi'i hamlinellu'n fanwl uchod ac y disgwylir iddi barhau ar ôl 2022/23. Wrth ddatblygu pob cynllun ym Mand B, bydd yr effaith ariannol yn cael ei hasesu ond derbynnir y bydd angen i rai prosiectau fynd yn eu blaen er mwyn cwrdd â blaenoriaethau cyffredinol y Cyngor ac y bydd angen cyllido'r costau refeniw ychwanegol o arbedion refeniw neu o gynnydd yn y Dreth Gyngor. Os bydd y Cyngor yn gweld, wrth fynd drwy Fand B yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, fod ystyriaethau'n codi o ran fforddiadwyedd, yna bydd y prosiectau sydd wedi'u cynnwys ym Mand B yn cael eu hadolygu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu cyflwyno camau C a D yn y rhaglen. Fodd bynnag, dim ond os oedd y camau hyn yn fforddiadwy y gellid eu cyflawni.

**7.2.2** Dylai'r holl egwyddorion yn adran 2 fod yn sail hefyd i wariant cyfalaf tymor hwy oni bai fod gwahaniaethau sylweddol yn y Cynllun Cyngor newydd ar gyfer 2023/28. Dylai unrhyw brosiectau nad ydynt yn ymwneud ag ysgolion, er enghraifft adnewyddu asedau presennol, gael eu cyllido drwy grant neu fenthyca â chefnogaeth i'r dyfodol, os bydd y ffrydiau cyllido hynny ar gael yn y tymor hir hefyd.

### 7.3 Strategaeth Buddsoddiadau nad yw'n ymwneud â Rheoli Trysorlys

**7.3.1** Mae'r Strategaeth Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys wedi'i chynnwys yn y DSRhT a gaiff ei drafod isod. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn dal nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn ymwneud â rheoli trysorlys, sef unedau eiddo y mae'r Cyngor wedi buddsoddi ynddynt i ennill incwm rhent. Mae'r rhain yn helpu i ddarparu ffrwd refeniw hirdymor i'r Cyngor. Roedd tua 70 eiddo yn y portffolio eiddo buddsoddi ar 31 Mawrth 2020, a'r rhain wedi'u prisio ar £6.2m. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo manwerthu, unedau swyddfa ac unedau masnachol. Yn 2019/20, casglwyd incwm rhent o £349k o eiddo buddsoddi. Gwariwyd £140k ar gostau cynnal a chadw ac ati, ac roedd hyn wedi arwain at incwm gweithredol net o £209k o incwm rhent. O ran cynlluniau ar gyfer eiddo buddsoddi yn y dyfodol, byddwn yn parhau i gynnal yr adeiladau at safonau cyfreithiol. Yn ogystal â hyn, codwyd adeilad unedau diwydiannol newydd yn Llangefni yn ddiweddar ac mae'n weithredol. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i adeiladu Unedau Diwydiannol ym Mhenrhos, Caergybi. Mae'n debygol y bydd yr unedau hyn yn weithredol yn 2021/22.

**7.3.2** Mae pŵer gan Awdurdodau Lleol i brynu neu ddatblygu eiddo fel buddsoddiadau er mwyn gwella gweithgarwch economaidd yn ardal y Cyngor neu fel modd i gynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r pwerau hyn yn ehangach na'r cynlluniau a nodir uchod, ond mae'r defnydd o'r pwerau hyn yn opsiwn sydd ar gael o hyd ac mae'r Strategaeth yn caniatáu i'r Cyngor ysgwyddo gwariant ar eiddo buddsoddi er mwyn cwrdd ag amcanion allweddol y Cyngor neu er mwyn manteisio ar unrhyw gyllid allanol sylweddol a fydd ar gael.

## 8. Benthyca a Rheoli Trysorlys

**8.1** Mae'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ac Arferion Rheoli Trysorlys (TMP) yn darparu'r fframwaith i sicrhau bod digon o arian parod i dalu cyflenwyr, sicrhau bod unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel a bod y benthyca i gyllido rhaglen gyfalaf 2021/22 yn fforddiadwy. Bydd y DSRhT yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2021.

**8.2** Mae Atodiad 11 i DSRhT 2020/21 yn darparu'r dangosyddion darbodus a thrysorlys ar gyfer y cyfnod 2019/20 i 2023/24, sy'n gymorth i benderfynu a yw cynlluniau benthyca yn fforddiadwy.

**8.3** Un ffordd i fesur fforddiadwyedd yw'r gymhareb rhwng costau cyllido a ffrydiau refeniw net. Mae'r amcangyfrifon o'r gymhareb rhwng costau cyllido a'r ffrydiau refeniw net fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| 2019/20 (Gwirioneddol) | 6.62% |
| 2021/22(Rhagamcan) | 6.18% |
| 2022/23 (Rhagamcan) | 5.51% |
| 2023/24 (Rhagamcan) | 6.04% |

Ar sail yr uchod, mae'r rhaglen gyfalaf arfaethedig yn parhau'n fforddiadwy yn nhermau goblygiadau refeniw.

Yn 2018/19, diwygiodd y Cyngor ei bolisi ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf ac roedd modd iddo ôl-ddyddio'r newidiadau. Yr amcan wrth ddiwygio'r polisi oedd sicrhau bod darpariaeth ddarbodus yn cael ei chodi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn. Fodd bynnag, un canlyniad i'r newid hwn oedd dangos bod gorddarpariaeth yn y blynyddoedd cynt a gellir defnyddio'r orddarpariaeth hon ym mlynyddoedd y dyfodol i sicrhau bod y costau cyllido blynyddol yn aros yn fforddiadwy. Bydd y Swyddog Adran 151 yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth benderfynu ar y tâl DRI blynyddol.

**8.4** Nod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yw defnyddio balansau arian parod mewnol y Cyngor, lle bynnag y bo modd, yn lle benthyca allanol. Wrth bennu lefel y benthyca mewnol, rhaid cynnal balansau arian parod digonol er mwyn cwrdd ag anghenion arian parod dyddiol y Cyngor h.y. talu staff, cyflenwyr ac ati.

# 9 Risgiau Posibl sy'n codi o'r Strategaeth Gyfalaf

**9.1** Mae'n debygol y bydd angen gwneud arbedion blynyddol sylweddol dros y tair blynedd nesaf gan beri risg i'r Cyngor, ac mae hyn yn cynnwys y rhaglen gyfalaf. Os bydd y targed arbedion yn anodd ei gyrraedd, ac mae hyn yn debygol am fod y rhan fwyaf o gyllidebau wedi'u torri at y craidd, gallai hyn arwain at adolygu'r rhaglen gyfalaf er mwyn sicrhau bod y costau cyllido cyfalaf sy'n effeithio ar refeniw yn llai.

**9.2** Mae Strategaeth Gyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar lefel dybiedig o gyllid gan Lywodraeth Cymru a thrwy grantiau allanol. Gan gofio'r ansicrwydd sy'n parhau ynghylch cyllidebau a'r ffaith y bydd y cyllid grant sylweddol a dderbynnir oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd yn cael ei golli, mae risg na fydd y lefel dybiedig hon o gyllid grant yn cael ei dderbyn fel y mae wedi'i nodi yn y strategaeth. Os bydd unrhyw newidiadau yn y cyllid, bydd yn rhaid ailasesu'r strategaeth gyfalaf a'r rhaglen gyfalaf flynyddol.

**9.3** Mae'r Cyngor wedi defnyddio benthyca mewnol dros nifer o flynyddoedd i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar falansau arian parod. Roedd y Cyngor wedi cymryd £15m o fenthyciadau allanol ym Mawrth 2019 ar gyfraddau isel iawn gan y PWLB. Byddai cynnydd pellach yn y costau hyn yn yr hinsawdd ariannol bresennol yn gallu effeithio ar fforddiadwyedd ac ar allu'r Cyngor i gyllido prosiectau cyfalaf newydd drwy fenthyca allanol ychwanegol.

**9.4** Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd y gallu i gynnal asedau presennol y Cyngor. Mae risg nad yw'r rhaglen amnewid yn ddigonol a bod safonau'r asedau yn disgyn i'r fath raddau fel bod angen lefel uwch o fuddsoddi er mwyn cynnal gwasanaethau. Mae'n bosibl na fydd y buddsoddi ychwanegol hwn yn fforddiadwy neu y bydd gofyn tynnu prosiectau newydd eraill o'r rhaglen.

**9.5** Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn un mor sylweddol ac uchelgeisiol fel bod risg na fydd y Cyngor yn gallu fforddio Bandiau C a D. Bydd angen dal sylw drwy'r amser ar Fand B y rhaglen er mwyn sicrhau bod y costau'n cael eu cadw o fewn y cyllidebau a osodwyd yn yr achosion busnes.

**9.6** Mae benthyca allanol yn arwain at gostau llog sylweddol bob blwyddyn. Mae'r mwyafrif o fenthyciadau'r Cyngor yn rhai sefydlog ac nid yw codiadau mewn cyfradd llog yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, byddai unrhyw gynnydd mawr mewn cyfraddau llog yn gallu effeithio ar fforddiadwyedd prosiectau yn y dyfodol os ydynt yn cael eu cyllido drwy fenthyciadau. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn amlinellu camau sy'n lliniaru'r risg hon i ryw raddau.

# 10. Gwybodaeth a Sgiliau

**10.1** Mae'r tîm cyfrifeg Adnoddau yn cynnwys pedwar o gyfrifyddion cymwys, yn cynnwys y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, sy'n gofalu am y rhaglen gyfalaf a'r swyddogaeth rheoli trysorlys. Yn ogystal â hyn, mae technegydd cyfrifeg cymwys sydd â phrofiad helaeth ym maes cyfalaf a rheoli trysorlys. Mae'r tîm yn mynychu cyrsiau CIPFA ar gyfalaf a rheoli trysorlys ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am y maes cyfrifeg arbenigol hwn. Hefyd, mae tîm o swyddogion proffesiynol o fewn gwasanaethau, er enghraifft, penseiri, rheolwyr prosiect a pheirianwyr, sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni'r Rhaglen Gyfalaf. Mae'r Cyngor hefyd yn comisiynu cyngor arbenigol gan Link Asset Services. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei aildendro ar hyn o bryd yn unol â rheolau caffael. Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y Cyngor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gyfalaf a rheoli trysorlys ac mae Aelodau'n cael cynnig hyfforddiant ar reoli trysorlys. Mae'r trefniadau llywodraethu wedi'u hamlinellu yn y Cyfansoddiad a'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys.

# Atodiad 2
## Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2021/22

| | | CYLLIDWYD DRWY | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUN** | **CYLLIDEB 2021/22 £'000** | **Grantiau Allanol £'000** | **Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000** | **Benthyca â Chefnogaeth £'000** | **Benthyca Digefnogaeth £'000** | **Cronfa Wrth Gefn y CRT £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol (os oes digon o gyllid) £'000** |
| **Cynlluniau ymrwymedig 2020/21 a ddygwyd ymlaen** | | | | | | | | |
| Unedau Porth (ERDF) | **2,032** | 2,032 | | | | | | |
| Porth Twristiaeth | **1,290** | 1,290 | | | | | | |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | **210** | 210 | | | | | | |
| Adfywio Caergybi (Menter Treftadaeth Treflyn) | **438** | 438 | | | | | | |
| Asedau TG Ysgolion | **30** | 30 | | | | | | |
| **CYFANSWM Cynlluniau ymrwymedig 2020/21 a ddygwyd ymlaen** | **4,000** | **4,000** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Adnewyddu / Amnewid Asedau** | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | **500** | | 500 | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysg | **300** | | | 300 | | | | |
| Adnewyddu Ysgolion | **1,000** | | | 1,000 | | | | |
| Adnewyddu Adeiladau heblaw Ysgolion | **600** | | | 600 | | | | |
| Priffyrdd | **1,250** | | 1,250 | | | | | |
| Cerbydau | **195** | | 195 | | | | | |
| Asedau TG | **292** | | 218 | 74 | | | | |
| **CYFANSWM Adnewyddu / Amnewid Asedau** | **4,137** | **-** | **2,163** | **1,974** | **-** | **-** | **-** | **-** |

| CYNLLUN | CYLLIDEB 2021/22 £'000 | CYLLIDWYD DRWY Grantiau Allanol £'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca â Chefnogaeth £'000 | Benthyca Digefnogaeth £'000 | Cronfa Wrth Gefn y CRT £'000 | Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol £'000 | Cronfeydd Wrth Gefn (os oes digon o gyllid) £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Blaenoriaeth)** | | | | | | | | |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd | **180** | | | 89 | | | 91 | |
| Datblygu Economaidd – pot cyllid cyfatebol | **95** | | | 95 | | | | |
| Chromebooks i ysgolion | **305** | | | | | | 305 | |
| Ailwynebu mannau chwarae (arwynebedd mawr) | **200** | | | | | | 200 | |
| **CYFANSWM Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (Blaenoriaeth)** | **780** | **-** | **-** | **184** | **-** | **-** | **596** | **-** |
| **Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (os bydd cyllid ar gael)** | | | | | | | | |
| Cynllun Llifogydd Traeth Coch | **225** | | | | | | | 225 |
| Ailwynebu mannau chwarae (arwynebedd bach) | **100** | | | | | | | 100 |
| **CYFANSWM Prosiectau Cyfalaf Untro Newydd (os bydd cyllid ar gael)** | **325** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **325** |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | | | | | | | |
| Band A | **5,077** | 2,539 | | 2,538 | | | | |
| Band B | **1,523** | 666 | | 359 | 498 | | | |
| **CYFANSWM Ysgolion yr 21ain Ganrif** | **6,600** | **3,205** | **-** | **2,897** | **498** | **-** | **-** | **-** |
| | | | | | | | | |
| **CYFANSWM Y GRONFA GYFFREDINOL** | **15,842** | **7,205** | **2,163** | **5,055** | **498** | **-** | **596** | **325** |

| | | CYLLIDWYD DRWY | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUN** | **CYLLIDEB 2021/22 £'000** | **Grantiau Allanol £'000** | **Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000** | **Benthyca â Chefnogaeth £'000** | **Benthyca Digefnogaeth £'000** | **Cronfa Wrth Gefn y CRT £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol £'000** | **Cronfeydd Wrth Gefn (os oes digon o gyllid) £'000** |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | | | | | | | | |
| Rhaglen Gynnal a Chadw Traddodiadol SATC | **9,555** | 2,674 | | | | 6,881 | | |
| Datblygiadau newydd ac ailbrynu unedau eiddo rhentu i brynu | **10,758** | | | | 2,000 | 8,758 | | |
| **CYFANSWM y Cyfrif Refeniw Tai** | **20,313** | **2,674** | **-** | **-** | **2,000** | **15,639** | **-** | **-** |
| | | | | | | | | |
| **CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF 2021/22** | **36,155** | **9,879** | **2,163** | **5,055** | **2,498** | **15,639** | **596** | **325** |